



Y Newyddion Diweddaraf am y Gwasanaeth Anableddau - COVID 19

13 Ebrill 2020

Annwyl bawb

Yr wythnos diwethaf aethom ati i gynnal cyfarfod rhithwir gyda 3 rhiant sy'n mynychu ein Grŵp Cydweithio i drafod y ffordd orau o barhau i gyfathrebu. Roedd pob un ohonom yn cytuno bod cael diweddariad ysgrifenedig rheolaidd bob 2 wythnos yn bwysig. Byddwn hefyd yn trefnu cyfarfod Grŵp Cydweithio rhithwir bob 2 wythnos ar gyfer y rhai sy'n gallu bod yn bresennol.

Yn amlwg, yn y cyfnod eithriadol hwn byddwn yn parhau i adolygu hyn. Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod.

1. Y Tîm Anableddau Plant a'r Tîm Pontio

Mae ein rheolwyr, ein staff gwaith cymdeithasol a'n staff iechyd yn parhau i fod ar gael ac maent yn gweithio gartref. Rydym wedi gofyn i weithwyr gysylltu â theuluoedd yn rheolaidd a gwneud yn siŵr eu bod yn iawn. Rydym i gyd yn dod i arfer â defnyddio Skype a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol eraill i weld ein gilydd ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ceisio ei ddefnyddio gyda theuluoedd hefyd. Rhowch wybod i'ch gweithiwr allweddol os yw hyn yn rhywbeth y byddech yn fodlon ag ef.

Mae gennym drefniadau ar waith i'r timau dderbyn galwadau drwy gyfrwng y rhifau ffôn arferol. Bydd y rhain yn cael eu hateb gan staff cymorth busnes a fydd yn trosglwyddo'r negeseuon i staff eraill.

Tîm Anableddau Plant – 01267 246400

Tîm Pontio – 01267 246766

2. Cymorth Cynnar a'r Tîm Camau Bach

Mae ein rheolwyr a'n staff ar gael. Rydym wedi gofyn i weithwyr gysylltu â theuluoedd yn rheolaidd a gwneud yn siŵr eu bod yn iawn. Rydym i gyd yn dod i arfer â defnyddio Skype a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol eraill i weld ein gilydd ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ceisio ei ddefnyddio gyda theuluoedd hefyd.

Mae gan y tîm nifer o adnoddau y maent yn eu casglu a allai fod o gymorth mewn perthynas â COVID-19, gan gynnwys gweithgareddau ar gyfer plant/pobl ifanc a sut i reoli pob agwedd ar lesiant ar hyn o bryd. Rydym wrthi'n diweddarau tudalennau'r Tîm Camau Bach ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i bawb eu gweld.

Rhowch wybod inni os oes unrhyw beth sydd ei angen arnoch a bydd rhywun yn eich ffonio ac yn eich helpu a'ch cynghori.

Tîm Cymorth Cynnar - 01267 246673

3. Darpariaeth Gofal Seibiant

Rydym wedi ysgrifennu at bob teulu i amlinellu'r mesurau rydym yn eu cymryd yn ein lleoliadau preswyl ar hyn o bryd:

1. Mae protocolau glanhau mwy manwl ar waith yn ystod y dydd, gyda ffocws ar arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd. Byddwn hefyd yn glanhau'n drwyadl bob dydd.
2. Mae ffocws ar sicrhau lefel uwch o hylendid personol hefyd; h.y. staff a phlant yn golchi dwylo'n rheolaidd
3. Ceir ffocws lle bo'n bosibl ar gadw pellter cymdeithasol rhwng y plant. Mae hyn yn golygu na fydd cymaint o blant yn bresennol ar gyfer gofal seibiant ar yr un pryd ag y byddem yn ei gael fel arfer.
4. Mae gennym ddarpariaeth o ran diheintydd dwylo ym mhob canolfan a chyfarpar diogelu arall fel y mae arnom ei angen.
5. Bydd rheolwyr yn asesu risg pob plentyn cyn mynychu darpariaeth gofal seibiant er mwyn penderfynu a yw'n gallu mynychu'n ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a yw eich plentyn neu'ch teulu wedi cael unrhyw symptomau COVID.
6. Bydd rheolwyr yn asesu risg pob aelod o staff bob dydd i benderfynu a ydynt yn gallu mynychu'n ddiogel.
7. Mae gennym fesurau ar waith eisoes ar gyfer staff y mae'n bosib y bydd arnynt angen hunanynysu neu warchod eu hunain yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.
8. Os bydd gennym blentyn neu aelod o staff sy'n sâl yna mae gennym fesurau ar waith i reoli hyn. Gall hyn olygu cau'r ardal a gyrchwyd ganddynt neu hyd yn oed cau'r adeilad am 72 awr er mwyn glanhau'n drwyadl. Mae'r rhain yn gamau rhagofalus.

Byddwn yn parhau i gynnig gofal seibiant dros nos i'r teuluoedd hynny sydd â'r angen mwyaf pan fydd modd i ni wneud hynny yn ddiogel. Byddwn yn ceisio cynnig cymorth yn ystod y dydd lle nad yw hynny'n bosibl.

4. Taliadau Uniongyrchol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, mewn trafodaeth â Diverse Cymru, wedi gwneud rhai newidiadau i'r modd y mae taliadau uniongyrchol yn cael eu darparu. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hadolygu.

Rhwng 27 Mawrth 2020 hyd at 26 Ebrill 2020 gellir cyflogi Cynorthwy-ydd Personol heb wiriad DBS os

- yw'r unigolyn hwnnw wedi cwblhau DBS yn ystod y 12 mis diwethaf gyda chyflogwr arall ac
- ar ôl derbyn geirada boddhaol gan y cyflogwr hwnnw (ar y ffôn neu e-bost).

Yn ogystal, rydym yn cydnabod efallai ei bod yn anodd i'r Cynorthwyr Personol ddarparu gwasanaethau'n ddiogel ar hyn o bryd. Byddem yn eich annog i siarad â'ch gweithiwr i drafod unrhyw ddatrysiadau eraill a allai fod yn bosibl.

5. Canolfannau Gofal Plant ac Ysgolion

Gwyddoch fod darpariaeth gofal plant ar gael ar gyfer 'gweithwyr allweddol' a'r plant mwyaf agored i niwed.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi "Dylid gofalu am bob plentyn gartref lle bod modd gwneud hynny'n ddiogel a dim ond pan nad oes unrhyw ddarpariaeth ddiogel arall ar gael y dylid defnyddio'r ddarpariaeth mewn ysgolion neu leoliadau eraill".

Os ydych yn teimlo bod angen darpariaeth gofal plant ar eich plentyn, siaradwch â'ch gweithiwr. Gall wneud cais i chi a siarad â chydweithwyr yn yr Adran Addysg ynghylch sut y gallai hyn fod yn bosibl. Gyda'ch caniatâd chi, bydd yn rhannu cynlluniau gofal a chymorth a gwybodaeth arall a fydd yn helpu.

6. Gadael eich cartref a theithio

Mae canllawiau'r Llywodraeth o ran gosod cyfyngiadau ar deithio diangen bellach yn cael eu gorfodi gan Heddlu Dyfed Powys. Gwyddom y gall hyn gael effaith sylweddol ar y gofal a'r cymorth a roddir i blant anabl a'u teuluoedd sydd angen cael egwyl o'u cartref weithiau.

Lle bo hyn yn gwbl angenrheidiol ac y gellir ei wneud yn ddiogel, mae'r heddlu wedi cytuno i ganiatáu hyn. Os byddwch yn siarad â'ch gweithiwr, gallwn ddarparu rhestr i Llesiant Delta (ein canolfan gyswllt) y gall yr heddlu ei gwirio os bydd angen.

6. Cymorth Cymunedol / Gofal Cartref Croesffyrdd

Mae Croesffyrdd wedi ymdrechu cymaint ag sy'n bosibl i barhau i roi cymorth mewn ffordd ddiogel. Os oes gennych weithiwr Croesffyrdd sy'n helpu eich plentyn i gymdeithasu, bydd Croesffyrdd yn siarad â chi ynghylch eich cefnogi chi a'ch plentyn mewn ffordd wahanol e.e. cymorth yn y cartref.

7. Clybiau Penwythnos, Gwyliau ac Ar ôl Ysgol Croesffyrdd

Rydym yn cadw mewn cysylltiad â Chroesffyrdd yn rheolaidd ac yn deall bod y tîm Croesffyrdd yn ystyried ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â chi a chynnig cyfleoedd i blant ryngweithio ag eraill. Rydym eisoes yn trafod sut y gallwn gydweithio i ddarparu gwasanaethau ar ôl i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon o gymorth am y tro. Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon a byddwn yn gwneud ein gorau i helpu.

Yn y cyfamser, cofion gorau a chymerwch ofal.

Kelvin